

Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddiâu heddiw eto. Mae Gwennan Hughes (Saron) wedi bod yn Ysbyty Walton ar hyd yr wythnos; mae Mair Jones (Nantglyn), Jane Williams (Llansannan) a Falmai Evans (Saron) yn Ysbyty Glan Clwyd; Glenys Jones (Llanefydd) yn Ysbyty Rhuthun; ac Elizabeth Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Bae Colwyn. Cafodd Nico Clwyd (Henllan) lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ddechrau'r wythnos ond mae'n dda cael adrodd ei fod yn gwella ac wedi dod adre o'r ysbyty, fel ag y cafodd Elizabeth Davies (Llanfair) yn dilyn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen. Mae eraill wedi cael llawdriniaethau dydd yn ddiweddar a rhai sydd heb fod cystal eu hiechyd neu yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi dros bob un ohonynt, a thros eu teuluoedd yr un modd. Parhawn i gofio hefyd am y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid. Cyflwynwn hwythau i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Llongyfarchiadau i Geraint a Catrin Roberts (Llansannan) ar enedigaeth merch fach. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

I ddod

- **NOSON GYMDEITHASOL CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 28fed. Y gŵr gwadd fydd y Parch. Christopher Prew. Croeso cynnes i bawb. £3.00 yn cynnwys lluniaeth ysgafn.
- **ADNABOD** – Grŵp newydd i'r merched iau yn cychwyn nos Fercher, Ebrill 29ain am 7.30 yn y Granar yn Llansannan. Os oes unrhyw un arall â diddordeb i ymuno, plis cysylltwch â Mair (870632).
- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 5ed am 10.00. Pwnc: "Cymorth i Farw".
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghapel Seilo, Llandudno (LL30 2DY) dydd Mawrth, Mai 12fed. Disgwylir y Parch. Casi Jones, Clynnog i annerch am 2.00 a Delyth Wyn Davies, Chwilog am 5.30. Darperir paned o de yn festri Capel Seilo rhwng y ddau gyfarfod, neu, fel y gwyddoch, mae digon o gyfleusterau i gael bwyd ar y Stryd Fawr. Mae manylion y cyfleusterau parcio wedi ei anfon i bob eglwys. Croeso cynnes i bawb.
- **SASIWN PLANT** (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) ym Mheniel ar Fai 17eg am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Mair Beech Williams.
- **DARLITH "MARI JONES AC ANN GRIFFITHS"** gan yr Athro E. Wyn James yn Festri Llansannan nos Lun, Mehefin 1af am 7.30. Croeso cynnes i bawb.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19^{eg} Ebrill 2015

Darlleniad y Dydd

Actau 1:1-14

(BCND tud.128 / BCN: tud.118)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso cynnes i chi i oedfaon y dydd. Mae'r Salmydd yn ein hatgoffa mai 'bendigedig yw'r Arglwydd, sy'n ein cario ddydd ar ôl dydd; Duw yw ein hiachawdwriaeth.' (Salm 68:19). Mae heddiw'n gyfle o'r newydd i ddiolch am gael derbyn y fath rodd yng Nghrist wrth i ni wrando ar Air Duw a moli'n Gwaredwr Iesu.

Fel y gŵyr rhai ohonoch sydd wedi ymweld â Heulfryn dros y blynyddoedd diwethaf, digon prin yw'r tyfiant a welir yn yr ardd erbyn hyn! Oni bai fod cyfeillion wedi bod mor hael â rhoi planhigion fel anrhegion i ni, mae'n debyg y byddai'r ardd yn edrych yn ddigon anniddorol o ganlyniad i'm diffyg llafur yno. A'r wythnos ddiwethaf, o Gapel Curig y daeth y rhodd! Anrheg Nadolig hwyr oedd y goeden geirios a gafodd ei phlannu yng nghefn y tŷ, ac un digon derbynol hefyd. Wedi ei phlannu daeth yn amlwg i mi mor amyneddgar y mae'n rhaid i arddwyr profiadol fod. Ar ôl y paratoi, yr hadu a'r plannu rhaid disgwyl am hydoedd yn aml i weld unrhyw arwydd o fywyd a gall bwlch hir fod cyn i ffrwyth llafur rhywun ymddangos. Mae'n eglur i'r disgyblion fod yn pendroni beth fyddai'n digwydd nesaf wedi'r atgyfodiad hefyd – oedd Iesu bellach am deyrnasu fel y Meseia buddugol yr oeddynt yn ei ddisgwyl i ryddhau Israel o orthrwm y gelyn? (Actau 1:6) Ateb Iesu oedd y byddai dyfodiad yr Ysbryd Glân yn sicr o newid pethau yn llwyr. Mae'r un egwyddor yn wir i ninnau heddiw hefyd yn ein bywydau personol ac yn ein dyhead am fendith fel eglwysi yng Nghymru. Er y gall edrych yn bur ddigalon ac y gallwn ofni nad oes llawer o fywyd i'w weld, rhaid i ni sylweddoli fod Crist yn Arglwydd byw a grymus – wedi delio â'n pechod ar y Groes ac wedi atgyfodi'n fuddugoliaethus ar y trydydd dydd. Oherwydd hyn a thrwy waith yr Ysbryd Glân y tyfodd yr eglwys mor syfrdanol fel y gwelwyd yn Llyfr yr Actau, ac nid yw'n gobaith fel Cristnogion wedi newid ers y cyfnod hwnnw. Iesu yw pen yr Eglwys, a thrwy ei Ysbryd y bydd yn adnewyddu, yn argyhoeddi ac yn dod â bywyd o'r newydd wrth i'r newyddion da amdano gael ei ddatgan i'r byd. Fy ngobaith yw y cawn yma ym Mro Aled y fath flas ar Iesu Grist nes yr ysgogir ni i weddio'n daer am i waith yr Ysbryd Glân gael ei amlygu yn ein bywydau ni ac ym mywyd ein heglwysi. Ac fe gychwynwn wrth ofyn i'n hunain – ydym ni'n barod i gael ein trawsnewid, ein puro a'n defnyddio gan Dduw?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled



Rhodri

Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseia 64:1-4 (BCND tud.679 / BCN: tud.619)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 19^{eg} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Iau – 23^{ain} • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
• **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 24^{ain} • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 26^{ain} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 19^{eg} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00. Cynhelir Gwasanaeth i gyflwyno Apêl Ysbyty Shillong yng Nghefn Meiriadog am 10.30, a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma – 19^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau – 23^{ain} Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 19^{eg} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} Bydd Miss Sioned Ll. Williams yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yno am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 19^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 19^{eg} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} Cynhelir Oedfa Deuluol yn Groes am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.30 a bydd cinio i ddilyn yn y Ffestri. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 19^{eg} Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 ac fe weinyddir y cymun. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.